

Cydymdeimlad a Chofion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Kevin Jones (Llansannan) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei fam, Mrs Morfydd Jones. Yr un modd, cydymdeimlwn â Doreen Evans (Llansannan) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei brawd, David Jones. Cyflwynwn y ddau, ynghyd â'u teuluoedd, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi nerth a chynhaliaeth Duw ei hun yn ddigon y dyddiau hyn.

Parhawn i gofio'r cleifion yn ein plith ac anfonwn ein cofion cynhesaf at Glenys Roberts (Llansannan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ers dechrau'r wythnos, a hefyd Richard M. Jones (Cefn Berain) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Bu'n rhaid i Trebor Roberts (Llansannan) aros yn yr ysbyty dros nos hefyd ond da clywed ei fod ef a Menna Lloyd (Groes) wedi cael dod adref erbyn hyn. Cyflwynwn hwy, a phawb arall sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal Duw gan hyderu eu bod yn profi gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu.

Gwerthfawrogiad

Gair i'ch atgoffa bod y Parch. Meirion Morris yn ymddeol diwedd y mis hwn a hynny ar ôl deng mlynedd o wasanaeth fel Ysgrifennydd Cyffredinol a Chyfarwyddwr Gweinidogaethau Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Derbyniwyd neges yn gwahodd pwy bynnag sy'n dymuno i gyfrannu tuag at rodd y bwriedir ei chyflwyno i Meirion fel arwydd o'n diolchgarwch am ei wasanaeth. Os hoffech fel eglwys neu fel unigolyn gyfrannu tuag at y gronfa honno, a fyddwch mor garedig ag anfon sieciau (yn daladwy i Eglwys Bresbyteraidd Cymru, gyda'r geiriau 'Rhodd Meirion' ar y cefn) i Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Capel Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1DD **erbyn dydd Gwener, 17 Mehefin 2022**, os gwelwch yn dda. Y bwriad yw cyflwyno'r rhodd i Meirion yn ystod y Gymanfa Gyffredinol eleni. (Os byddwch yn dymuno cyfrannu dros y we, plis cysylltwch â Mair i gael y manylion banc.)

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (15^{fed}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 5 Mehefin 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Bu'n braf cael cyfle i grwydro maes Eisteddfod yr Urdd yr wythnos ddiwethaf a gweld cymaint o wynebau cyfarwydd! Rwy'n ysgrifennu'r myfyrdod hwn ar fore dydd Iau a hyd yn hyn chlywais i ddim cwyno am draffig, ac ar y cyfan bu'r tywydd yn ddigon dymunol. Ond hyd yn oed os nad ydych wedi mentro ar y maes ger Dinbych, mae'n debyg bod nifer ohonoch wedi cael cip ar yr Eisteddfod ar y teledu a sylweddoli bod trefn wahanol i'r cystadlu yn 2022. Yn hytrach na'r hen arferiad o gynnal rhagbrofion gyda dim ond y goreuon (yn nhyb y beirniaid!) yn cystadlu ar lwyfan y pafiliwn, eleni cafodd pawb oedd yn cystadlu gyfle i wneud hynny ar lwyfan un o'r tri phafiliwn swyddogol.

Wn i ddim beth oedd y rheswm a roddwyd dros y newid ond gallaf ddychmygu bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth eu boddau fod pawb o'r cystadleuwyr yn cael y fath gyfle. Does dim amheuaeth fod yna densiwn oesol ynghlwm wrth gystadlu. Pwrpas cystadleuaeth yw gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n ennill a'r rhai sydd ddim, ac felly'n anorfod bydd rhai ar ben eu digon tra bod eraill yn profi siom. Ac mae'n bwysig i ni gofio nad yw pawb yn meddu'r un doniau, nac ychwaith yn derbyn yr un lefel o hyfforddiant a chefnogaeth.

Felly wrth ystyried y cwestiynau mawr hyn ynglŷn â chystadlu digwyddais ddarllen rhan gyntaf Llythyr Paul at y Rhufeiniaid: 'Yr wyf yn cyfarch pawb yn Rhufain sydd yn annwyl gan Dduw, a thrwy ei alwad ef yn saint. Gras a thangnefedd i chwi oddi wrth Dduw ein Tad a'r Arglwydd Iesu Grist.' (Rhufeiniaid 1:7) Roedd Paul yn eiddgar i'r holl Gristnogion wybod eu bod yn annwyl gan Dduw. Dyma neges hyfryd i Gristnogion cryf a gwan, hen ac ifanc, gwryw a benyw, yn medru canu fel eos neu'n methu canu nodyn!

Yn ystod Eisteddfod yr Urdd gwelwyd amrywiaeth helaeth o doniau'n cael eu hamlygu ar y llwyfannau, ond roedd un peth yn gyffredin i bob cystadleuydd – roeddent i gyd yn perthyn, yn aelodau o'r Urdd!

Oherwydd yr hyn wnaeth Iesu trwy ei fywyd di-fai, ei farw aberthol a'i atgyfodiad gogoneddus, yn ôl y Beibl os ydym ni'n perthyn i Grist trwy ffydd rydym yn saint, yn bobl arbennig i Dduw. Ac mae gan bawb o'r saint eu doniau, eu cymeriad a'u diddordebau gwahanol tra'n rhannu'r un gobaith, gan ein bod wedi'n prynu i ryddid 'â gwaed gwerthfawr Un oedd fel oen di-fai a di-nam, sef Crist.' (1 Pedr 1:19)

Diolch i Dduw am yr amrywiaeth ymhlith Ei saint, a diolch am yr undod sydd rhyngom yn Iesu Grist!

Rhodri



Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mehefin 5^{ed}

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch Gwilym Tudur. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **Sgwrs a Gweddi** ar ZOOM am 7:30 yr hwyr ac edrychwn ymlaen i gael cwmni y Parch. Gwilym Tudur a chael clywed mwy am ei weinidogaeth yn ardal Aberystwyth. Croeso cynnes i bawb. (Ewch i wefan www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Sgwrs a Gweddi' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Nos Lun, Mehefin 6^{ed} a Phnawn Gwener, Mehefin 13^{eg}

- **'Y Salmu'** – Y pedwerydd sesiwn mewn cyfres o chwech astudiaeth Feiblaidd o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Gellir ymuno (ar ZOOM) naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. (Manylion mewngofnodi: <https://uso2web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwirydd EBC.

Dydd Mawrth, Mehefin 7^{fed}

- **Paned a Sgwrs (Llansannan)**. Cinio mewn gwesty lleol. [Enwau erbyn dydd Sul, Mehefin 5^{ed}](#), os gwelwch yn dda. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Hafwen (07785 733725) neu Sian (07733 071868). Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Mehefin 12^{fed}

- **Oedfa i'r Daith (Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair) yn Llanfair** am 10:30 o dan arweiniad Mr Gwydion Lewis.
- **Oedfa yn Llanefydd** am 9:30 ac **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Trefor Lewis.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Dydd Sul, Mehefin 19^{eg}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa i'r Daith (Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes) yn Llanefydd** am 10:30 o dan arweiniad y Parch. John Robinson.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan** am 6:00 yr hwyr. Arweinir yr oedfa gan Celfyn a bydd Rhodri yn pregethu.

I ddod

- ⇒ **Souled Out 22 yn y Bala (13-18 Awst 2022)** ar gyfer ieuencid (15+), myfyrwyr ac oedolion ifanc. Mae'r prif sesiynau bob amser yn uchafbwynt, a bydd hefyd rhai seminarau ymarferol yn ystod yr wythnos i arfogi ac ysbrydoli. Ac mewn steil Souled Out, bydd llwyth o bethau hwyl i bawb wneud! Mae'r gost o £122 yn cynnwys y digwyddiad, bwyd, gweithgareddau a 5 noson o lety. (Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynychu.) Ewch i souledoutcymru.net/haf/ i archebu lle.

Enwebiadau Medal Gee

Croesewir enwebiadau eto eleni am fedalau o blith yr eglwysi yng Nghymru, gan gofio bod yn rhaid i bob ymgeisydd a enwebir gan ei eglwys fod dros 75 oed ac yn dal i fynychu'r Ysgol Sul (mae'r diffiniad o Ysgol Sul hefyd yn cynnwys dosbarthiadau Beiblaidd/seiadau trafod canol wythnos). Rhaid i bob cais sydd i'w ystyried eleni fod wedi cyrraedd Y Parchg. Aled Davies, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli LL53 6SH **erbyn Mehefin 30ain fan hwyraf**. Cliciwch ar y ddolen [Ffurflen Gais Medalau Gee](#) i lawrlwytho ffurflen enwebu, neu cysylltwch â Mair i gael copi papur.

Cyflwynir Medalau Gee (y Gogledd) ar ddydd Sadwrn, 10 Medi 2022 yn Yr Hen Gapel, Llanuwchllyn am 2:00 y prynhawn gan Dr Isoline Grenaulgh a Dr Dorothy Gee Williams o deulu'r diweddar Thomas a Suzannah Gee.

Mae cyflwyno medalau fel hyn yn ffordd anrhydeddus i ddiolch i athrawon Ysgol Sul dosbarthiadau plant ac ieuencid am oes o wasanaeth, ac i gydnabod ffyddlondeb aelodau dosbarth yr oedolion yn ogystal. Tybed oes 'na rywrai yn eich Ysgolion Sul chi sy'n disgyn i'r categori hyn? Os oes, yna ewch ati i enwebu!